CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 19 CHWEFROR 2008

Presennol
Dirprwy Faer – Cyng. R M Jones

Cynghorwyr
I C Thomas, W T Owen, R Anderson, H Edwards, H W Roberts, H Gwyn, O T Owen, A W Bohana, A Kirk, A Y Williams, M E Williams, T Thomas

Eglurodd Cyng. R M Jones bod y Maer Cyng. M Powell-Jones yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth a bod y Clerc mewn cysylltiad ar ysbyty yn reolaidd. Dymuna aeloda'r Cyngor wellhad buan iddi

Siaradwr Gwadd : Peter Evans Cyngor Gwynedd
Par: Toiledau Cyhoeddus

Nodi yn gryno sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd. Angen arbed 4 miliwn y flwyddyn am 3 blynedd. Adran yr amgylchedd angen arbed 950,000 am 3 blynedd. Rhan o'r broses oedd sefydlu gweithgor o swyddogion a cynghorwyr sir i gategoreiddio pob darn o waith y Cyngor.
Categori 1 – dim toriad o gwbl (pethau statudol , cyfreithiol)
Categori 2 – yn dechnegol bosibl i dorri, ond problemau dwys yn codi yn y dyfodol
Categori 3 – efallai yn bosibl gwneud toriadau.

Cychwynnodd y broses yna ym Mis Rhagfyr a roedd toiledau cyhoeddus wedi disgyn i mewn i categori 3

Allan o 95 y canllawiau yw 25 yn cau a 12 yn troi yn tymhorol

Yr unig doiled yn Caernarfon sydd dan fygythiad yw Toiled ym Mynwent Llanbeblig

Gofynnwyd faint o arian sydd yn cael eu arbed wrth cau 25 o doiledau.

Ar hyn o bryd costau'r toiledau yw 900,000

Ceisio arbed 150,000 trwy gau 25 ond angen gwario 30,000 o hynny i wella cyflwr sawl toiled arall. Felly gwir arbed o 120,000

Nodwyd pryderon am y cam ddefnyddio presennol o'r toiled

Gofynnwyd faint yw costau flynyddol toiled Llanbeblig
Oddeutu £300 am Dwr, £900 cynnal a chadw a £7000 costau staffio

Mae'r toiled yn cael ei agor pan mae na angladd mawr

Os byddai Cyngor Tref yn cytuno i gymeryd y cyfrifoldeb drosodd yr unig beth fuasai Cyngor Gwynedd wneud fyddai "one off spring clean" a talu'r dreth

Penderfynwyd
Ysgrifennu at Cyngor Gwynedd yn apelio iddynt ail ystyried y sefyllfa

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng. M Powell-Jones , Cyng. W R Owen

2. Datgan Buddiant Personol
Cynllunio – R M Jones, H Edwards, W T Owen
Cynllunio- rhif 5 – H W Roberts
Cynllunio- rhif 1 – A Y Williams
Eitem 12,13 & 18 – I C Thomas
Eitem 10,13 & 18 – W T Owen

3. Eitemau brys
E-bost gan Gareth Edwards parthed eitem 6
Diweddariad gan Dirprwy Faer a'r Clerc parthed Carreg Goffa Bodfan – eitem 20
E-bost Cyng. R Anderson parthed Y Maes – eitem 21

4. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
Anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod priodol (gweler ddogfen amgaeedig)

5. Cyfrifon
I gymeradwyo biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

6. Wefan

Ffigyrau Statudol - 'hits'

2007 :	
Mehefin	62323
Gorffennaf	102860
Awst	32975
Medi	31628
Hydref	26612
Tachwedd	70249
Rhagfyr	70805
	397452
Ionawr 2008	80843
Cyfanswm	**478295**

Ynghyd a e-bost Gareth Edwards
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth ond trafod y wefan yn gyffredinol

7. Llythyrau Diolch

Segontium Cyf.
Clwb Ieuenctid
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

8. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llythyr Jane Davidson AC

Parthed: Rhybudd o gynnig Cyng. H. W. Roberts
Penderfynwyd
Derbyn gyda diolch

9. Gorchymyn Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd – Stryd Llyn
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

10. Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir Er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd – Cyngor Sir Gwynedd

Penderfynwyd
Datgan yn gryf yn erbyn ffederaleiddio Ysgol Santes Helen, a gofyn i Cyngor Gwynedd ail ystyried

11.Llwybrau Cyhoeddus

Mapiau i'w gweld yn ystafell cynllunio + copi o e-bost hwyr
wedi amgáu yn eich amlen
Penderfynwyd
Gohirio unrhyw drafodaeth tan ar ôl i'r gweithgor trafod efo Cyngor Gwynedd.

12. **Defnydd o'r Arfbais**

Penderfynu y ffordd ymlaen i'r rhestr sydd yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd neu yn ceisio ei ddefnyddio:

Siambr Fasnach
Clwb Peldroed
Clwb Golff Caernarfon
Galeri

Gwyl y Gogs
Diwrnod y Feteraniaid
Penderfynwyd
Dim newidiadau i'r sawl sydd yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd a caniatáu i'r ddau gorff arall ar ôl iddynt arwyddo y polisi newydd
(ni pleidleisiodd Cyng. A Y Williams ar Diwrnod Y Feteraniaid)
13. **Llythyr Cyngor Gwynedd**

Par: Trwydded Eiddo i Doc Fictoria
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

14. **Unllais Cymru**

i. Copi o Y Llais ar y bwrdd
ii. Cyfle i Weithio i Unllais

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

15. Ymddiriedolaeth Forol Seiont ll

Llythyr dyddiedig 29 Ionawr 2008 – trafodaeth pellach

Penderfynwyd
Disgwyl i Cyng. W T Owen ymadrodd yn ôl yn dilyn cyfarfod yr Ymddiriedolaeth cyn unrhyw drafodaeth

16. Llythyr Gareth Pritchard Prif Uwch Arolygydd

Penderfynwyd
Anfon llythyr o diolchgarwch am ei waith teilwng

17. Lythyr Cyngor Gwynedd 6 Chwefror 2008

Par: Gwaith ail wynebu yr A487 allanfa yr Eagles at gylchfan Penllyn

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

18. Llythyr Cyngor Gwynedd 7 Chwefror 2008 – Deddf Trwyddedu 2003

Par: Celtic Centre Caernarfon Ltd. Cais am Drwydded Eiddo yn Doc Fictoria

Penderfynwyd
Caniatáu

19. Cwestiynau

Pa bryd mae'r maes yn mynd i fod yn barod?
Dim syniad

Are we moving ahead to erect the 2 signs?
Yes

Ydi'r curfew yn ôl ar cloc y dre?
Dim syniad

Ydi'r clerc yn hapus efo'r camera?
Heb gael amser i ddefnyddio fo eto

20. **Diweddariad am Carreg Goffa Bodfan**

Yn dilyn ymweliad ar iard glo cost y garreg i'w phrynu fuasai £600, wrth gwrs yn ogystal a chostau cludo gan bod y garreg yn enfawr ac yn drom

Penderfynwyd
Symud am trafodaeth yn y Cyngor nesaf

21. **E-bost Cyng. R Anderson parthed Y Maes**

Penderfynwyd
Symud yr eitem i'r Cyngor nesaf

Cyfarfod yn gorffen am 7.45

Arwyddwyd..... Dyddiad.....